YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE REPRESENTATIVE BODY OF THE CHURCH IN WALES

# CANLLAWIAU I GYNGHORAU PLWYF EGLWYSIG AR GAU

# MYNWENTYDD A DDEFNYDDIR FEL CLADDFEYDD

## Cyflwyniad

Yn Eglwys Loegr, dim ond os gwneir Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor y gellir cau claddfa. Gwneir Gorchymyn o'r fath gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac effaith gorchymyn o'r fath yw sbarduno gwaith cynnal a chadw i'w drosglwyddo i'r Awdurdod Lleol o dan ddarpariaethau adran 215 o *Ddeddf Llywodraeth Leol 1972*.

Yng Nghymru, nid yw'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ymgymryd â chynnal a chadw claddfeydd sydd wedi eu cau. Mae ganddynt y pŵer i wneud hynny ond nid dyletswydd. Felly, nid oes angen Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor er mwyn cau claddfeydd yr Eglwys yng Nghymru am mai cyfrifoldeb y Cyngor Plwyf Eglwysig yw'r gwaith cynnal a chadw ar ôl cau.[1]

Os yw Awdurdod Lleol yng Nghymru yn barod i ymgymryd â chynnal a chadw claddfa sydd wedi cau (ac mae bob amser yn werth trafod hynny gyda'ch awdurdod lleol), efallai y bydd angen Gorchymyn yn y Cyngor cyn gwneud hynny. Gall Corff y Cynrychiolwyr roi cyngor ar y broses os mai dyna yw'r sefyllfa.

Felly, ar gyfer claddfeydd yr Eglwys yng Nghymru, gellir datgan eu bod wedi cau drwy benderfyniad gan y Cyngor Plwyf Eglwysig. Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn nodi'r ystyriaethau y mae angen i'r Cyngor Plwyf Eglwysig eu gwneud wrth ystyried cau'r gladdfa i gladdedigaethau newydd.

## Yr Hawl i gael eich Claddu

Yn ôl cyfraith gyffredin, mae gan yr ymadawedig a oedd yn preswylio neu a fu farw yn y plwyf yr hawl i gael eu claddu ym mynwent eglwys Anglicanaidd y plwyf hwnnw ar yr amod bod lle. Ategwyd yr hawl hon yn *Neddf Eglwys Cymru (Claddfeydd) 1945*.

Felly, os bydd Cyngor Plwyf Eglwysig penderfynu cau claddfa i gladdedigaethau newydd a bod lle o hyd ar gyfer claddedigaethau newydd, gallai'r Cyngor Plwyf Eglwysig wynebu her gyfreithiol. Dylai'r Cyngor Plwyf Eglwysig bwyllo wrth ystyried cau claddfa, ac mae'r canllaw

[1] *Defnyddir y term "Cyngor Plwyf Eglwysig" yn y ddogfen hon i ddisgrifio corff ymddiriedolwyr eglwysig lleol sy'n gyfrifol am reoli'r gladdfa. Gall y cyrff hyn hefyd gael eu hadnabod fel Cyngor yr Ardal Weinidogaeth, Cyngor yr Ardal Weinidogaeth Leol, Cyngor Bywoliaeth Reithorol, Cynhadledd Ardal Genhadaeth, neu unrhyw derm arall a ddynodir gan bolisïau esgobaethol.*

hwn yn dangos y meini prawf allweddol y dylid eu hystyried sy'n dilyn egwyddorion proses Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

DS Pan fo Cyngor Plwyf Eglwysig am roi'r gorau i ysgwyddo'r dasg o weinyddu claddedigaethau, ni ellir defnyddio'r rheswm hwnnw fel sail ddigonol i gau claddfa.

## Diffinio Cau Claddfa

Mae cau claddfa yn golygu na fydd rhagor o feddau newydd yn cael eu hagor. Gellir parhau i gladdu aelodau teuluol mewn beddau sy'n bodoli'n barod (gan gynnwys lleiniau a gedwir trwy hawleb), beddau muriog, claddgelloedd neu feddrodau (os oes lle). Caniateir claddu gweddillion amlosgi o hyd, ar yr amod bod hawleb wedi'i threfnu ar gyfer y lle claddu (gweler Adran 13 o'r *Rheoliadau ar gyfer Gweinyddu Mynwentydd a Freiniwyd yng Nghorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru*).

## Meini Prawf ar gyfer Cau Claddfa

Mae pedwar maen prawf allweddol i'w hystyried wrth gau claddfa. Gall unrhyw un o'r rhain fod yn ddigon o reswm i'r Cyngor Plwyf Eglwysig ddatgan bod y gladdfa wedi cau:

1. Nid oes lle priodol ar gyfer beddau newydd.
2. Byddai claddedigaethau pellach yn groes i'r hyn sy'n weddus.
3. Byddai terfynu claddedigaethau yn atal neu'n lliniaru niwsans.
4. Byddai claddedigaethau pellach yn risg i iechyd.

Maen prawf 1 yw'r sail fwyaf cyffredin wrth benderfynu ar gau claddfa. Mae'r lleill yn anos eu diffinio'n fanwl neu byddai angen mewnbwn arbenigol iawn wrth eu hasesu.

Mae maen prawf 1 yn berthnasol os yw'r gladdfa yn llawn ac na ellir defnyddio'r tir sy'n weddill i dorri beddau newydd, er enghraifft, lle mae'r tir yn rhy serth, yn rhy llaith neu'n brin o ddyfnder. Byddai hefyd yn berthnasol os byddai defnydd o'r fath yn tresmasu'n afresymol ar adeiladau, llwybrau neu strwythurau cyfagos neu'n ymyrryd â hwy.

Ni ddylid cau rhan o'r gladdfa am fod y rhan benodol honno'n llawn. Y rheswm am hyn yw y gallai ac y dylid parhau i arfer unrhyw hawliau claddu mewn unrhyw ran sy'n weddill o'r gladdfa.

## Proses a Awgrymir ar gyfer Cau Claddfa i Gladdedigaethau newydd

### Cam 1

Adolygwch y meini prawf uchod a phenderfynu pa un sydd fwyaf perthnasol i'ch sefyllfa. Casglwch dystiolaeth i gyfiawnhau pam y byddai'r meini prawf yn berthnasol. Gallai hyn gynnwys:

- Dylech holi Corff y Cynrychiolwyr ynghylch union berchnogaeth eich claddfa. Weithiau, y Cyngor lleol yw perchennog claddfeydd. Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn darparu cynllun gan y Gofrestrfa Tir neu dystiolaeth arall. Dyma gyfle hefyd i wirio eich ffiniau ar gyfer unrhyw lechfeddiant neu anghysondebau.

- Gwybodaeth o arolygon tir i asesu addasrwydd ar gyfer claddedigaethau. Efallai y bydd y trefnydd angladdau neu'r torrwr beddau yn gallu helpu gyda'r gwaith hwn.

- Map yn dangos y gladdfa cyfan a'r holl feddau presennol gyda nodiadau yn dangos y cyfyngiadau ar gyfer claddu pellach.

- Os mai risg i iechyd yw sail eich dadl, bydd angen adroddiad arbenigol arnoch sy'n asesu'r risg i iechyd sy'n gysylltiedig â chladdu pellach.

- Os mai niwsans yw sail eich dadl, byddai angen asesu hyn yn gyfreithiol gydag adroddiadau arbenigol ategol. Yn aml bydd hyn yn fater yn ymwneud â llygru dŵr daear.

Y pwynt allweddol yw y dylech wneud y penderfyniad ar sail ffaith wrthrychol yn hytrach na rhagfarn neu argraffiadau blaenorol.

### Cam 2

Trafodwch y dystiolaeth gyda'ch Cyngor Plwyf Eglwysig. Os ydynt o'r farn fod cyfiawnhad dros gau, dylent wneud penderfyniad dros dro i gau'r gladdfa i gladdedigaethau newydd yn amodol ar ymgynghoriad pellach.

### Cam 3

Holwch eich cymuned leol yn anffurfiol. Dylech ddwyn y cynnig i sylw plwyfi lleol a gwahodd unrhyw sylwadau. Gallwch ymgynghori ar ffurf hysbysiadau cyhoeddus, hysbysiad i'r Cyngor Cymuned neu Dref, cylchlythyrau cymunedol ac ati. Dylai'r ymgynghoriad ddarparu tystiolaeth ddigonol am y rhesymau y bwriedir cau'r lle claddu. Dylai'r deunydd cyhoeddusrwydd gynnwys cyfeiriad cyswllt a dyddiad cau ar gyfer sylwadau. Dylai'r ymgynghoriad egluro'n glir mai dim ond ar gyfer beddau newydd y mae'r gladdfa'n cau.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gyfle i'r gymuned drafod sut gellir cyflawni ac ariannu'r gwaith o gynnal a chadw'r gladdfa yn y dyfodol.

### Cam 4

Dylai'r Cyngor Plwyf Eglwysig adolygu'r sylwadau a dderbyniwyd a'u hystyried yn ofalus. Gall rhai sylwadau fod yn seiliedig ar emosiwn yn hytrach na ffaith wrthrychol. Dylid asesu'r sylwadau yn erbyn y meini prawf a nodir uchod er mwyn helpu i benderfynu a yw'r penderfyniad i gau yn dal yn rhesymol. Gallech hefyd drafod hyn gyda'ch Archddiacon a/neu Gorff y Cynrychiolwyr i gael sicrwydd bod eich penderfyniad i gau yn ymddangos yn rhesymol ac yn unol â'r canllawiau hyn.

### Cam 5

O dderbyn na ddaeth i'r fei yn yr ymgynghoriad unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod y sail arfaethedig ar gyfer cau yn anghywir, dylai'r Cyngor Plwyf Eglwysig wedyn wneud penderfyniad terfynol i gau ar gyfer claddedigaethau newydd. Mae penderfyniad enghreifftiol yn Atodiad 1.

### Cam 6

Dylid archifo'r penderfyniad a gwblhawyd yn ddiogel yng nghofnodion y Cyngor Plwyf Eglwysig ac anfon copi at Gofrestrydd yr Esgobaeth a Chorff y Cynrychiolwyr.

## Nodyn ar greu claddfeydd newydd

Gall y broses ymgynghori leol beri bod galw am agor claddfa ychwanegol ar dir eglwys neu dir arall. Polisi Corff y Cynrychiolwyr yw annog plwyfi i beidio â chymryd cyfrifoldeb am gladdfeydd newydd neu rai estynedig (dylai hyn fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdod claddu lleol h.y. y Cyngor Cymuned, y Cyngor Tref neu'r Awdurdod Lleol) oni bai bod Corff y Cynrychiolwyr (y byddai tiroedd o'r fath yn cael eu breinio iddo) yn fodlon bod cymorth ariannol digonol yn cael ei ddarparu ar gyfer caffael a chynnal y claddfeydd neu'r estyniadau arfaethedig. DS Byddai angen caffael tir eglwys, megis clastir, ar werth y farchnad o ystyried telerau ymddiriedaeth yr ased hwnnw.

Byddai angen caniatâd cynllunio hefyd ar gyfer newid defnydd unrhyw dir a gynigir fel claddfa newydd ac mae'n debygol y byddai angen arolygon helaeth o gyflwr a draeniad y tir. Byddai angen cyngor arbenigol.

Alex Glanville
Pennaeth Gwasanaethau Eiddo
Yr Eglwys yng Nghymru
Mawrth 2022 v1.1

## Atodiad 1 - Penderfyniad Cyngor Plwyf Eglwysig i Gau Claddfa i Gladdedigaethau Newydd

**Enw'r Cyngor Plwyf Eglwysig:** ______________________________________

**Cyfeiriad cyswllt ar gyfer Ysgrifennydd y Cyngor Plwyf Eglwysig:** ______________

________________________________________________________________

**Enw'r Gladdfa:** ___________________________________________________

---

Mae'r Cyngor Plwyf Eglwysig, ar ôl ystyried yn ddwys y lle claddu sy'n weddill yn y gladdfa uchod, wedi penderfynu y dylid cau'r gladdfa uchod, sef y tir o fewn yr ymyl goch ar y cynllun amgaeedig, i gladdedigaethau newydd.

Gwneir y penderfyniad hwn yn dilyn dadansoddiad gofalus o natur ffisegol y gladdfa gan ddod i'r casgliad y dylid cau'r gladdfa ar y sail ganlynol*:

- Nid oes lle priodol ar gyfer beddau newydd.
- Byddai claddedigaethau pellach yn groes i'r hyn sy'n weddus.
- Byddai terfynu claddedigaethau yn atal neu'n lliniaru niwsans.
- Byddai claddedigaethau pellach yn risg i iechyd.

* *dylid dileu'r rhai amherthnasol.*

At hynny, gwneir y penderfyniad hwn yn dilyn ymgynghoriad lleol ar y cynnig ar y dyddiadau canlynol: _________________________________________________________.

Mae'r Cyngor Plwyf Eglwysig yn cadarnhau y bydd claddu mewn beddau sy'n bodoli'n barod (gan gynnwys lleiniau a gedwir trwy hawleb), beddau muriog, claddgelloedd neu feddrodau ar gyfer aelodau'r teulu yn parhau, os oes lle. Bydd claddu gweddillion amlosgi yn parhau yn yr ardal a ddynodwyd trwy hawleb ar gyfer claddedigaethau o'r fath fel y gwelir ar y cynllun amgaeedig.

At hynny, mae'r Cyngor Plwyf Eglwysig yn cadarnhau y bydd yn parhau i fod yn gyfrifol am reoli a chynnal a chadw'r gladdfa.

---

**ARWYDDWYD**

**Cadeirydd y Cyngor Plwyf Eglwysig:** ______________________________

**Warden yr Eglwys:** _____________________________________________

**Warden yr Eglwys:** _____________________________________________

**Dyddiad y cyfarfod lle pasiwyd y penderfyniad hwn:** ____________________